# Proffil



## Proffil



Ffion Williams ydw i a dw i'n byw yng Nghaerdydd. Dw i'n byw mewn tŷ teras yn agos i Stadiwm y Mileniwm. Mae'n grêt.

Mae fy mhen-blwydd i ar Chwefror chwech.

Mae brawd gyda fi. Mae e'n ddeg oed ac mae e'n mynd i'r ysgol gynradd.

Mae ci gyda fi o'r enw Pero. Mae e'n bump oed ac mae e'n frown a gwyn. Mae e'n ffrind da iawn.









Dw i'n mwynhau darllen, cerdded, cadw'n heini a rhedeg ac weithiau, dw i'n cerdded a rhedeg yn y parc mae'n hwyl. Dw i wrth fy modd yn nofio achos mae'n hwyl ond hefyd, yn fy marn i, mae nofio'n dda i chi. Dydd Sadwrn, es i i lan y môr i nofio. Roedd e'n ffantastig.

Fy hoff fwyd i ydy salad achos mae'n flasus iawn a fy nghas fwyd i ydy sglodion.

Alex Jones ydy fy arwres i achos mae hi'n wych ar y teledu ac mae hi'n helpu pobl hefyd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| tŷ teras | terraced house | o'r enw | called |
| yn agos i | near | cadw'n heini | to keep fit |
| fy mhen-blwydd | my birthday | fy hoff fwyd | my favourite food |
| brawd | brother | fy nghas fwyd | the food I hate |
| ysgol gynradd | primary school | arwres | heroine |